Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

17.2.23

Annwyl rieni a gwarcheidwaid/*Dear parents and guardians,*

Fel rydych yn ymwybodol rwy'n siwr, fe wnaeth yr Undeb Addysg Cenedlaethol ohirio'i streic a fwriadwyd ar gyfer 14 Chwefror. **Fodd bynnag, mae'r Undeb yn ddiweddar wedi cyhoedd ei fwriad i ail-gynnal y streic ar Ddydd Iau 2 Mawrth.** Yn dilyn asesiad risg diogelwch, yng nghyd-destun y ffaith fod nifer o staff yr ysgol yn aelodau o'r Undeb hwnnw, yn anffodus ni fydd yn bosib i holl ddysgwyr yr ysgol fynychu'r safle ar y diwrnod. Ychydig yn wahanol i'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol ar 14 Chwefror, ac oherwydd gofynion ychwanegol 2 Mawrth, **rwyf wedi penderfynu caniatau i ddysgwyr Blynyddoedd 9, 11, 12 a 13 YN UNIG i fynychu'r ysgol ar Ddydd Iau 2 Mawrth. Felly, ni fydd yn bosib i ddysgwyr Blwyddyn 7, 8 a 10 fynychu'r ysgol ar y diwrnod.** Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn blaenoriaethu dysgwyr sy'n sefyll arholiadau terfynol yn fuan ac yng nghyd-destun y ffaith na fu'n bosib i ddysgwyr Blwyddyn 9 fynychu'r ysgol ar ddiwrnod diwethaf y gweithredu diwydiannol (1 Chwefror). Yn amlwg, fe fyddaf yn rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 ar ddiwrnodau nesaf streicio pe digwyddant. **Yn ogystal, ni fydd yn bosib i ddysgwyr a addysgir yn yr Adnodd Dysgu Arbenigol (y Tŷ) fynychu'r ysgol.** Ymddiheuraf am yr anghyfleustra tebygol a achosir gan hyn i gyd. Fe fyddaf yn cysylltu eto am sefyllfa'r ysgol cyn y gweithredu diwydiannol bwriadedig nesaf ar 15 a 16 Mawrth gan ymdrechu i roi cymaint o rybudd a phosib i chi am y sefyllfa. Diolch i chi am eich amynedd a chydweithrediad tebygol.

As I'm sure you are aware, the National Education Union suspended its strike intended for 14 February. ***However, the Union has now confirmed its intention to reinstate that strike on Thursday 2 March.*** *Following a safety risk assessment, in the context of the fact that several school staff are members of that Union, unfortunately it will not be possible for all school learners to attend the site on the day. Different to what was originally planned for 14 February and in the light of additional factors connected with 2 March,* ***I have decided to allow ONLY learners from Years 9, 11, 12 and 13 to attend the school site on Thursday 2 March. Therefore, it will not be possible for learners from Years 7, 8 and 10 to attend school on the day.*** *This decision is based upon prioritising learners who will face final examinations soon and in the context of the fact that on the last strike day (1 February) Year 9 learners could not attend school. Obviously, I shall prioritise Year 7 and 8 learners on the next strike days should they occur.* ***In addition, it will not be possible for learners who are educated in the Specialist Teaching Facility (y Tŷ) to attend school.*** *I'm sorry for the inconvenience all this is likely to cause. I will contact you again before the next intended strike days of 15 and 16 March to give you as much notice as possible about the school situation. Thank you for your patience and likely cooperation.*

Yn gywir/*Yours sincerely,*

Jeffrey Connick

(Pennaeth/*Headmaster)*

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein